PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD IAU, 16 MAWRTH 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Owen Jones(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Derbyshire, Gibson, Lancaster, Lewis, Lloyd Jones, Jackie Parry a/ac Wood |

69 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Green.

70 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

71 : STRATEGAETH AILGYLCHU CAERDYDD

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi i'r Aelodau ddiweddariad ar gyflwyno Strategaeth Ailgylchu Caerdydd 2021-25 a chynnydd tuag at fwrw targedau Ailgylchu Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chyfle i glywed gan Gynghorwyr y mae eu wardiau yn gwahanu eu hailgylchu ar hyn o bryd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi awdurdodau lleol i wella eu perfformiad ailgylchu a dod yn genedl ddiwastraff. O ganlyniad mae perfformiad ailgylchu Caerdydd wedi gwella, ond mae'n dal i fod y tu ôl i awdurdodau lleol eraill Cymru. Roedd hi'n ofynnol i Gaerdydd gyflawni cyfradd ailgylchu o 64% erbyn 2021/22, a 70% erbyn 2024/25.

Rhoddodd y swyddogion gyflwyniad yn crynhoi'r gwasanaethau presennol i drigolion a gwybodaeth ynglŷn â'r cynllun peilot ailgylchu wedi'i wahanu a gynhaliwyd mewn nifer o wardiau. Tynnodd y cyflwyniad sylw hefyd at yr amserlen arfaethedig ar gyfer cyflwyno ailgylchu wedi'i wahanu ar draws y ddinas a'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno mewn gwastraff masnach, a fydd hefyd angen cyflwyno ailgylchu wedi'i wahanu.

Cafodd y Pwyllgor sylwadau hefyd gan nifer o Gynghorwyr yn cynrychioli'r wardiau a oedd yn rhan o'r cynllun peilot ailgylchu wedi'i wahanu.

Dechreuodd y Cadeirydd y drafodaeth ar yr eitem hon. Cafodd yr Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, gofyn am eglurhad pellach neu wneud sylwadau. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Dywedodd Aelod fod trigolion yn cefnogi egwyddor ailgylchu ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd angen mynd i'r afael â rhai problemau ymarferol. Er enghraifft mae gan y ddau fag ailgylchu yr un symbolau arnynt ac nid yw'n glir pa gynhyrchion sy'n mynd ym mhob bag. Nid yw'r bagiau yn cael eu gwagio'n llawn chwaith, nid ydynt yn cael eu dychwelyd yn iawn ac maent yn cael eu chwythu o gwmpas gan y gwynt.

- Mynegodd yr Aelodau bryderon ynglŷn â gallu'r henoed a phobl anabl i wahanu eu gwastraff. Awgrymwyd efallai y gellir cynnig gwasanaeth pwrpasol i grwpiau agored i niwed fel y rhain.

- Gofynnodd yr Aelodau am ddadansoddiad o'r gyfradd ailgylchu fesul ward ar draws y Ddinas. Dywedodd y swyddogion nad oedd modd rhoi amcangyfrif cywir o'r gyfradd ailgylchu ym mhob ward oherwydd bod casgliadau gwastraff yn croesi ffiniau wardiau. Dywedodd y swyddogion ei bod hi'n bosib rhoi dadansoddiad o wastraff sy'n cael ei gasglu o fathau o breswylfa. Croesawodd yr Aelodau'r data hwnnw.

- Nododd yr Aelodau fod Casnewydd yn cyflawni'r gyfradd orau o ran ailgylchu ar gyfer pob dinas yn y DU. Gofynnodd yr Aelodau beth oedd Casnewydd yn ei wneud yn wahanol. Dywedodd y swyddogion fod Wastesavers wedi'u contractio i weithredu gwasanaeth ailgylchu wedi'i wahanu ers peth amser ar ran Cyngor Dinas Casnewydd. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod mwyafrif yr awdurdodau sy'n perfformio'n well na Chaerdydd yn gweithredu cynlluniau ailgylchu wedi'i wahanu. Ond mae'n bosib nad yw'r awdurdodau hynny'n prosesu'r un faint o wastraff masnach ag y mae Caerdydd yn ei gasglu. Ar hyn o bryd, mae gwastraff masnach yn cael effaith andwyol ar gyfradd ailgylchu Caerdydd ond bydd y sefyllfa hon yn cael ei gwrthdroi pan fydd deddfwriaeth newydd, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl wastraff masnach gael ei ailgylchu, yn cael ei chyflwyno yn y dyfodol agos.

- Gofynnodd yr Aelodau am fanylion cyfradd bresennol absenoldeb salwch yn y Gwasanaeth Rheoli Gwastraff. Dywedodd y swyddogion mai'r targed ar gyfer y gwasanaeth yw 20 diwrnod o absenoldeb salwch y pen. Mae hyn yn ostyngiad o'r targed o 24 diwrnod yn y flwyddyn flaenorol. Bu llawer o ymdrech i reoli absenoldeb salwch a gwella lles ac iechyd. Rhoddir cymorth Iechyd Galwedigaethol yn Nepo Ffordd Lamby – 7 diwrnod yr wythnos – lle gallant gwrdd â staff yn uniongyrchol.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd cyfanswm y gwastraff wedi'i gyflwyno i'w ailgylchu yn ystod y cynllun peilot wedi cynyddu neu a oedd y gyfradd ailgylchu well o ganlyniad i ostyngiad mewn croeshalogi. Dywedodd y swyddogion fod 30% o'r bagiau gwastraff ailgylchadwy cymysg yn cynnwys halogi. Amcangyfrifir mai tua 1.6% fydd y swm o halogi o ailgylchu wedi'i wahanu.

- Nododd yr Aelodau nad oedd tua 50,000 o eiddo a oedd yn fflatiau ac yn dai amlfeddiannaeth yn bennaf wedi'u cynnwys o fewn y trefniadau newydd. Gofynnodd yr Aelodau sut mae'r eiddo'n cael eu nodi a beth fyddai unrhyw gynllun peilot yn y dyfodol ar gyfer y mathau hynny o eiddo yn ceisio ei sefydlu. Dywedodd y swyddogion fod rhai cynlluniau peilot yn gweithredu yn flociau llai o fflatiau ar hyn o bryd, gan gynnwys darparu cyfleusterau ailgylchu cymunedol. Derbyniwyd bod problemau i'w datrys o ran storio biniau wedi'u gwahanu mewn rhai mathau o breswylfa. Bydd angen cynllun gwahanol ar gyfer tai amlfeddiannaeth ac mae hynny'n cael ei ystyried ymhellach. Wrth ymateb i

gwestiwn gan y Pwyllgor, dywedodd y swyddogion fod tai amlfeddiannaeth yn yr ardaloedd sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot yn derbyn yr un nifer a math o gynwysyddion ag eiddo eraill.

- Rhoddodd y swyddogion eglurhad am y gwahanol 'linynnau' neu raglenni gwaith a oedd yn cael eu cynnal sydd eu hangen er mwyn bwrw targed ailgylchu 70% Llywodraeth Cymru.

- Dywedodd y swyddogion fod 50,000 tunnell o ailgylchu'n cael ei brosesu yng Nghymru, bod 30,000 tunnell o ailgylchu'n cael ei brosesu yn Lloegr a bod y gwastraff sy'n weddill yn cael ei gludo i'r Almaen ac India. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod gwefan 'Fy Ailgylchu Cymru' Llywodraeth Cymru yn cynnwys dadansoddiad o ble mae gwastraff pob awdurdod lleol yn cael ei brosesu. Yn ogystal, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynnu bod data llif gwastraff yn nodi ble mae deunyddiau'n cael eu hanfon a'r hyn sy'n digwydd iddynt.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at adborth a dderbyniwyd a gwnaethon nhw ofyn am sylwadau pellach gan y swyddogion ar y cynwysyddion ailgylchu wedi'i wahanu a ddarperir i drigolion. Mynegwyd pryderon am y ffaith bod cynwysyddion, ar ôl cael eu gwagio, yn cael eu chwythu o gwmpas mewn tywydd gwyntog neu nad ydynt yn cael eu dychwelyd i drigolion yn foddhaol ar ôl eu gwagio gan weithredwyr. Gall hefyd fod cyfnod hir rhyngddynt yn cael eu gwagio a thrigolion yn dychwelyd adref i'w casglu. Dywedodd y swyddogion fod yr adborth a gafwyd wedi'i dderbyn ac y bydd newidiadau ar ddod o ganlyniad. Bydd y bag ar gyfer papur a cherdyn yn cael ei newid a bydd fflapiau'n cael eu hychwanegu i atal dŵr glaw rhag mynd i mewn iddo. Mae'r bagiau wedi'u pwyso i bwysau sy'n debyg i bob awdurdod lleol arall ledled Cymru. Nodwyd hefyd bod mater hyfforddiant gan fod dull priodol o gyflwyno'r cynwysyddion yn ôl i drigolion nad yw'n cael ei fabwysiadu. Yn y dyfodol bydd cerbyd sbwriel cefn hollt gwahanol yn cael ei ddefnyddio gan y bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i fagiau gael eu gwagio.

- Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth ynghylch perfformiad ailgylchu yn yr ardaloedd hynny sy'n cymryd rhan yn y cynllun yn erbyn yr ardaloedd hynny nad ydynt yn gwahanu eu hailgylchu ar hyn o bryd. Cytunodd y swyddogion i roi adborth a nodi cyfanswm y gostyngiad mewn ailgylchu wedi'i halogi. Er hynny, ni fyddai'n bosib rhoi ffigyrau fesul ward.

- Gofynnodd yr Aelodau a fydd pecynnau tetra'n cael eu cynnwys yn y cynllun ailgylchu yn y dyfodol. Dywedodd y swyddogion fod cynllun peilot yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i ôl-ddidoli pecynnau tetra. Os bydd y cynllun peilot hwnnw'n llwyddiannus, yna gofynnir i drigolion gyflwyno pecynnau tetra yn eu cynhwysydd plastig/metel.

- Gofynnodd yr Aelodau am fanylion amserlen ar gyfer cyflwyno ailgylchu wedi'i wahanu i fflatiau a thai amlfeddiannaeth. Dywedodd y swyddogion y bydd

cynlluniau peilot yn rhedeg am oddeutu blwyddyn ac y byddai cynlluniau wedyn yn cael eu cyflwyno yn 2024/25. Byddai angen i'r gwasanaeth sicrhau bod digon o adnoddau ar waith i gefnogi ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystod cyflwyno unrhyw newidiadau, yn enwedig o ran poblogaeth y myfyrwyr.

- Wrth ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor, dywedodd y swyddogion y dylid cyflwyno tecstilau a ffabrigau mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref (CAGCau) ac mewn hybiau cymunedol. Mae'r swyddogion hefyd yn ymchwilio a fydd hi'n bosib darparu gwasanaeth banc dillad hygyrch mewn ysgolion.

- Dywedodd y swyddogion nad oedd cynlluniau i ehangu'r gweithlu. Fodd bynnag, byddai systemau digidol a data'n cael eu defnyddio i gynyddu effeithlonrwydd. Cydnabu'r swyddogion fod angen i'r gwasanaeth wella hefyd sut mae'n cyflwyno gwybodaeth i drigolion. Roedd tua 500 o wirfoddolwyr hefyd yn gweithio mewn grwpiau casglu sbwriel cymunedol yn y ddinas.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd casgliad wythnosol o boteli a jariau yn ddigonol. Dywedodd y swyddogion fod y gwasanaeth yn dymuno annog trigolion i ailgylchu cymaint â phosib ac y gellir rhoi cymaint o gynwysyddion ailgylchu ag sydd eu hangen i drigolion. Mae'r symudiad i gasgliadau gwydr bob pythefnos wedi digwydd o ganlyniad i ddata a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod peilot. Byddai casgliad gwydr bob pythefnos yn fwy effeithlon gan fod llai na 50% o drigolion yn cyflwyno eu cynhwysydd gwydr yn wythnosol. Mae 80% ohonynt yn ei gyflwyno pan fo'r casgliad bob pythefnos.

- Cadarnhaodd y swyddogion fod staff wedi derbyn y newid i ailgylchu wedi'i wahanu. Awgrymwyd y gallai'r Pwyllgor ddymuno derbyn adborth gan staff ymhen tua 6 mis.

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyflwyno unrhyw sylwadau, arsylwadau ac argymhellion a wnaed yn ystod y ffordd ymlaen.

## 72 : CLEDRAU CROESI CAERDYDD

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad briffio ar brosiect Cledrau Croesi Caerdydd yn dilyn cyhoeddi cais llwyddiannus am gyllid 'Codi'r Gwastad'.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod cadarnhad o gais Cam 1 Cledrau Croesi Caerdydd (CXR) llwyddiannus gwerth £50 miliwn wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth y DU ym mis Ionawr 2023. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian cyfatebol ac mae cyfanswm o £100 miliwn ar gael i gyflawni Cam 1 y datblygiad. Cydnabuwyd rôl Trafnidiaeth Cymru wrth ddatblygu'r cais a'r achos busnes amlinellol.

Nod y prosiect yw darparu gwasanaeth tram rheolaidd o Gaerdydd Canolog i blatfform newydd yng ngorsaf drenau Bae Caerdydd; dau blatfform newydd yng

Ngorsaf Drenau Caerdydd Canolog; gwelliannau i’r tir cyhoeddus o gwmpas y platfformau trenau presennol a newydd; a chynllun ffordd newydd sy'n caniatáu pontio diogel i'r cyhoedd ei ddefnyddio rhwng ffordd, rheilffordd, beicio a cherdded.

Croesawodd y Cadeirydd Claire Moggridge, Rheolwr Gweithredol, Pennaeth Trafnidiaeth a Jason Dixon, Rheolwr Gweithredol – Datblygu Trafnidiaeth a Rheoli Rhwydwaith i'r cyfarfod. Gwahoddwyd y swyddogion i roi cyflwyniad.

Dechreuodd y Cadeirydd y drafodaeth ar yr eitem hon. Cafodd yr Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, ceisio eglurhad neu wneud sylwadau am y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae’r trafodaethau hynny wedi’u crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau am gapasiti Cam 1 y prosiect. Dywedodd y swyddogion y byddai digon o gapasiti i redeg dros 12 trên yr awr rhwng Caerdydd Canolog a Bae Caerdydd. Amcangyfrifodd y gwerthusiad yn 2019 tua 1.9 miliwn o deithwyr y flwyddyn. Gallai'r rhagolygon, yn dibynnu ar ddatblygiad yn y Bae, fod hyd at 2.5 miliwn y flwyddyn.

- Gofynnodd yr Aelodau am fanylion yr amserlen ar gyfer cam nesaf y prosiect yn nwyrain y ddinas. Dywedodd y swyddogion y byddai Cam 1 yn cael ei gwblhau erbyn 2027/28. Byddai ceisiadau pellach am gyllid yn cael eu gwneud i barhau gyda'r prosiect ymhellach i'r dwyrain.

- Gofynnodd yr Aelodau pa effaith y byddai gweithredu diwydiannol neu ddigwyddiad arall a fyddai’n achosi i’r rhwydwaith rheilffyrdd methu yn ei chael ar y ddinas. Dywedodd y swyddogion fod gan y gweithredwyr rheilffyrdd gyfrifoldeb cyfreithiol i ddarparu gwasanaeth amgen ar gyfer unrhyw rwystrau neu waith sy'n digwydd ar y rhwydwaith. Fodd bynnag, byddai gweithredu diwydiannol yn atal elfennau o'r system drafnidiaeth a byddai hyn yn cyflwyno heriau.

- Cadarnhaodd y swyddogion y bydd cynllun teithio ar gyfer digwyddiadau mawr yn y Bae. Bydd Cledrau Croesi yn amhrisiadwy wrth gefnogi hynny a byddant yn welliant enfawr ar y darpariaethau presennol. Bydd digwyddiadau hefyd yn cael eu cefnogi gyda'r gwasanaeth parcio a theithio, gwasanaethau bysus blaenoriaeth a cherdded/beicio.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd y swyddogion yn hyderus y byddai'r cyllid ar gyfer gweddill y prosiect Metro ar ddod ac a fyddai digon o gysylltiadau rhwng y CXR a'r rhannau hynny. Dywedodd y swyddogion y byddai'r CXR yn caniatáu cysylltu Caerdydd Ganolog â Bae Caerdydd gan ddefnyddio'r brif linell a'r gwasanaethau rhanbarthol presennol. Byddai gwasanaethau presennol o Heol y Frenhines Caerdydd hefyd yn parhau.

- Gofynnodd yr Aelodau am fanylion y rhaniad moddol presennol rhwng cerdded/beicio/bws/trên/car. Dywedodd y swyddogion fod y ffigyrau hynny'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd a chytunon nhw i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

- Gofynnodd yr Aelodau sut mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar ragamcanion teithio. Dywedodd y swyddogion fod rhai patrymau teithio wedi dychwelyd i'r patrwm cyn y pandemig - ond dros gyfnod o 12 awr mae'r patrymau hynny wedi newid. Mae cyfnod prysur y bore yn ddiweddarach ac yn para'n hirach. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y gyfradd llif fesul awr ychydig yn is ar adegau. Mae cynnydd wedi bod yn y nifer sy'n beicio ac yn cerdded. Mae'r nifer sy'n beicio yn parhau'n uchel ac mae'r gwasanaeth yn awyddus i gynnal hynny. Mae'r defnydd o drenau a bysus yn ôl i'r arfer ar rai llwybrau ac nid ar lwybrau eraill. Mae defnydd bellach ar tua 80% o'r lefel cyn y pandemig. Nid yw prisiau consesiynol wedi dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig yn genedlaethol.

- Nododd Aelod fod mwy o bobl yn gweithio gartref ers diwedd y pandemig. Mae pobl hefyd yn siopa ar-lein yn fwy ac mae'r argyfwng costau byw yn cael effaith ar eu gwariant. Gofynnwyd i'r swyddogion wneud sylw ar hyfywedd cyffredinol y prosiect. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod nifer yr ymwelwyr yng nghanol y ddinas yn uwch nag yn y rhan fwyaf o ddinasoedd craidd. Bydd datblygu'r arena dan do yn y Bae yn cynyddu nifer yr ymwelwyr ymhellach. Felly mae system deithio torfol sy'n gynaliadwy ac yn ddibynadwy yn hanfodol.

- Dywedodd y swyddogion fod gwaith paratoi o amgylch y rhwydwaith priffyrdd ar gyfer y prosiect ar gam hwyr ac y gall yr Aelodau fod yn dawel eu meddwl bod y gwaith ar y gweill. Mae'r gwaith hwn yn amserol a bydd wedi'i integreiddio'n llawn gyda gwaith ar y rhwydwaith gwres a'r gwaith o ddatblygu'r arena dan do. Cyn dechrau'r gwaith, bydd angen i Orchymyn Rheoleiddio Trafnidiaeth (Cymru) gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a bydd angen cymeradwyaeth gynllunio.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd y swyddogion yn hyderus bod gan y Cyngor ddigon o gapasiti i gyflawni'r ystod o brosiectau trafnidiaeth sydd wedi'u cynllunio. Cydnabu'r Pennaeth Trafnidiaeth fod adnoddau dan bwysau. Er hynny, mae'r swyddogion yn hyderus y bydd y prosiectau yn cael eu cyflawni.

- Dywedodd y swyddogion mai un o brif ofynion y prosiect fyddai tocynnau ar y cyd. Mae tocynnau ar y cyd yn cael eu harwain gan Trafnidiaeth Cymru (TC) ac mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda nhw. Cadarnhaodd y swyddogion y bydd TC yn gweithredu'r CXR.

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyflwyno unrhyw sylwadau, arsylwadau ac argymhellion a wnaed yn ystod y ffordd ymlaen.

73 : BUSNES Y PWYLLGOR

Gofynnwyd i'r Aelodau gytuno ar adran y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol o Adroddiad Blynyddol Craffu 2022/23.

PENDERFYNWYD – Y dylid cymeradwyo tudalennau'r Pwyllgor Craffu Amgylcheddol yn Adroddiad Blynyddol Craffu 2022/23.

Gofynnwyd am ddatganiadau o ddiddordeb gan yr Aelodau sydd â diddordeb mewn cymryd rhan yng Ngrŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Cyd y Cynllun Datblygu Newydd.

PENDERFYNWYD y dylid rhoi datganiadau o ddiddordeb mewn cymryd rhan yng Ngrŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Cyd y Cynllun Datblygu Newydd i'r Prif Swyddog Craffu erbyn 24 Mawrth 2023.

74 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim eitemau brys.

75 : Y FFORDD YMLAEN

76 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol yn cael ei gynnal ar 20 Ebrill 2023.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.45 pm